23.02.2023

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Wayne a Connagh Howard yn hel achau o Jamaica i Cork

Yn 2021 bu Wayne a Connagh Howard o Gaerdydd ar daith ar hyd ynysoedd Cymru ar gyfer y rhaglen **Cymru, Dad a Fi**.

Daeth hyn ar ôl i Connagh serennu yn y gyfres ITV, Love Island. Roedd yn gyfle i'r tad a'r mab grwydro ynysoedd, cilfachau a chreigiau arfordir Cymru, dod i adnabod eu gwlad yn well ac iddyn nhw edrych ar eu hunaniaeth. Roedd hefyd yn gyfle i'r gwylwyr ddysgu am gysylltiadau teuluol Connagh a Wayne gyda Chymru, Jamaica ac Iwerddon.

Yn **Teulu, Dad a Fi,** cyfres newydd fydd yn dechrau ar S4C ar 7 Mawrth, bydd cyfle i dyrchu yn ddyfnach i wreiddiau ac etifeddiaeth y teulu.

Bydd Connagh a Wayne yn edrych mewn i hanes cyndeidiau Connagh ar y ddau ochr, sef teulu'r Howards o Jamaica a'r McCarthys o Swydd Cork, sef teulu mam Connagh, Lynda. Roedd y ddau deulu yn unedig yn eu gobaith o symud i Gymru i chwilio am fywyd gwell - o'r Caribî i'r Famwlad ac o Iwerddon i Gymru.

Bydd yr hanes yn arwain Wayne a Connagh o Gaerdydd i Southampton, Skibbereen, gydag ymweliad ar draws Môr y Caribî i Jamaica.

Yn y bennod gyntaf, bydd Wayne a Connagh yn olrhain achau'r teulu gyda'r hanesydd Elin Tomos. Bu farw tad Wayne a thad-cu Connagh, Neville Howard, yn 2022 ac er ei fod wedi adrodd sawl edefyn o'i hanes ar hyd y blynyddoedd, mae dal nifer o fylchau.

Meddai Wayne: "Mae'r fflam wedi'i drosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf fel petai, felly rydw i a Connagh wedi dod i benderfyniad. Pa ffordd well i gofio am Dad nag i fynd ar daith i geisio llenwi rhai o'r bylchau 'na?".

"Dwi'n credu fod fy nhad wedi cal bywyd anodd, roedd o'n chwerw ers blynyddoedd. Does dim rhyfedd oes 'na? Dychmygwch; gadael Jamaica, dod yma, cael problemau gyda hiliaeth, gwneud swyddi ofnadwy, 'does dim rhyfedd oedd o'n chwerw.

"Penderfynais fynd ar y siwrne hon oherwydd o ni'n meddwl am brofiadau fy Nhad, y pethau mae wedi mynd trwyddo, a dwi moyn darganfod sut mae wedi siapio fi yn bersonol."

"Hefyd, rwy'n gobeithio bydd y bererindod yn tynnu Connagh yn fwy agos at fy Nhad."

Meddai Connagh: "Dwi'n edrych 'mlaen i weld beth oedd taith fy Nhad-cu i fel, i drio rhoi fy hunain mewn ei sgidie fe a gweld sut oedd profiad fe."

Yn un o’r genhedlaeth Windrush, roedd Neville yn lygad-dyst i brofiadau amrywiol pobl ddu ym Mhrydain ar ddechrau'r 1950au. Wrth glywed am yr amodau llwm y byddai Neville wedi  profi ar ei daith o Kinsgton, Jamaica, i Southampton ar long yr SS Almanzora mae Connagh yn adlewyrchu a chymharu ei fywyd yntau ac un ei Dad-cu.

“Roedd Tad-cu yn dod yma gyda dim byd heblaw ei *determination* i wneud bywyd i’w hunain, chwarae teg,” meddai Connagh. “Gellai mond dychmygu be oedd taith nhw fel, yn gorfod edrych dros ei ysgwydd e. Ar ôl clywed am gamau cyntaf ei daith e yn Prydain, dwi’n teimlo fel fy mod i’n deall o fwy fel person.”

Mae’n debyg fod gan bob teulu eu cyfrinachau a chwedlau - ac mae ambell beth sy’n cael ei ganfod yn syndod i’r Howards. Mae’n daith ddirdynnol, llawn emosiwn sy’n adrodd straeon o obaith, gwydnwch, cariad, casineb a hiliaeth. Wrth i’r teulu ddysgu mwy am eu gwreiddiau, mae’n gyfle i’r gwylwyr ddarganfod mwy am hanes y gwahanol ddiwylliannau sydd wedi dod ynghyd i greu Cymru amrywiol a balch.

Bydd Wayne a Connagh yn archwilio mwy i hanes ochr Gwyddelig y teulu a theithio o amgylch Swydd Cork. Yna, yn y bennod olaf caiff y ddau gyfle i droi eu golygon tua cham olaf y daith, Jamaica.

**Teulu, Dad a Fi**
**Dydd Mawrth 7 Mawrth, 9.00**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C**

S4C

23.02.2023

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Wayne and Connagh Howard on their journey from Cardiff to Cork and Jamaica

In 2021 Wayne and Connagh Howard from Cardiff toured Wales and its islands for S4Cs **Cymru, Dad a Fi** programme.

This came after Connagh starred in the ITV series Love Island. **Cymru, Dad a Fi** was a chance for the father and son to explore the islands, bays and cliffs of the Welsh coast, to get to know the country better as well as to explore their identities. It was also a chance for viewers to learn about the family's links with Wales, Jamaica and Ireland.

In **Teulu, Dad a Fi**, a new series which starts on S4C on 7 March, there will be an opportunity to delve deeper into the family's roots and origins.

Connagh explores his their ancestry on both parents' sides, the Howards from Jamaica and his mother Lynda's family, the McCarthys from Cork. Both families were united in their hope of moving to Wales in search of a better life – from the Caribbean to the Motherland and from Ireland to Wales.

The journey leads Wayne and Connagh from Cardiff to Southampton, Skibbereen and then a visit across the Caribbean Sea to Jamaica.

In the first episode, historian Elin Tomos helps Wayne and Connagh to trace the family's genealogy. Wayne's father and Connagh's grandfather, Neville Howard, passed away in 2022 and despite having told many a story over the years, not everything about him was known.

Wayne said: "The flame has been passed on to the next generation as it were, so myself and Connagh have come to a decision. What better way to remember Dad than to go on a trip to try and fill in some of those gaps?".

"I think my dad had a difficult life, he was a bitter man. Is it any wonder? Imagine; leaving Jamaica, coming here, having problems with racism, doing terrible jobs, no wonder he was bitter.

"I decided to go on this journey to get to know more about my Dad's experiences, the things he's gone through and I want to find out how he's shaped me personally."

"Also, I hope the pilgrimage will draw Connagh closer to my Father."

Connagh said: "I'm looking forward to seeing what my Grandfather's journey was like, to try and put myself in his shoes and see what it was like for him."

One of the Windrush generation, Neville experienced racism when he arrived in Britain in the 1950s. Hearing of the bleak conditions Neville would have experienced on his journey from Kinsgton, Jamaica, to Southampton on the ship SS Almanzora, Connagh reflects and compares his life to that of his Grandfather.

"Gramps came here with nothing other than his determination to make a life for himself, fair play to him," Connagh said. "I can only imagine what his journey was like, having to look over his shoulder all the time. Having heard about the first stages of his journey to Britain, I feel like I understand him more as a person."

Most families have legends, myths and secrets – and the Howards are no exception, with a few surprising revelations coming to light. It's a harrowing, emotional journey that tells stories of hope, resilience, love, hate and racism. As the family learns more about their roots, viewers discover more about the history of the different cultures that have influenced a diverse and proud Wales.

In episode two, Wayne and Connagh delve more into the history of the Irish side of the family and travel around County Cork. Then in the final episode they turn their sights towards the final stage of the journey, Jamaica.

**Teulu, Dad a Fi**
**Tuesday 7 March, 9.00**
**English subtitles available**
**On S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**
**A Cwmni Da production for S4C**